Nawddsant Cymru

Dyfalbarhad/ gosod esiampl/ dewrder

Mawrth 1 ydi'r diwrnod i gofio am ein prif sant neu nawddsant. Yn yr ysgolion, bydd y plant yn cynnal cyngerdd neu wasanaeth arbennig. Bydd y bobl yn dod at ei gilydd i gael pryd o fwyd. Dyma'r diwrnod i wisgo cennin Pedr neu wisg Gymreig. Ond pwy oedd Dewi?

Dewi Sant - 6ed ganrif

Mab i frenin Ceredigion, sef Sant, oedd Dewi. Roedd ei fam, Non, yn lleian. Pan oedd Dewi yn cael ei eni fe ddaeth storm fawr. Trawodd un o'r mellt garreg anferth oedd wrth ymyl Non. Neidiodd un darn o'r garreg i'r awyr a syrthio wrth draed ei fam. Roedd hyn yn arwydd pendant fod rhywun arbennig wedi cael ei eni. Pan oedd Dewi yn cael ei fedyddio fe gododd ffynnon yn y fan honno. Roedd yr offeiriad oedd yn cario Dewi yn faban bach, yn ddyn dall. Ar ôl bedyddio Dewi fe olchodd ei wyneb â dŵr y bedydd. Yn sydyn, cafodd ei olwg yn ôl.

Pan oedd Dewi yn fachgen bach yn yr ysgol fe ofynnodd ei athro iddo, "Dewi, fel rwyt ti'n gwybod, rydw i yn ddall. Dydw i ddim yn gweld dim. Rho dy ddwylo ar fy llygaid."

Rhoddodd Dewi ei ddwy law ar lygaid Peulin, ei athro. Yn sydyn, roedd Peulin yn gweld unwaith eto. Roedd Dewi yn fachgen da yn yr ysgol a buan iawn y daeth yn enwog drwy'r wlad i gyd. Un diwrnod clywodd lais angel yn galw arno, "Dewi, Dewi, rwyf am i ti fynd i Lyn Rhosyn. Yno rwyf am i ti godi mynachlog."

Aeth Dewi i Lyn Rhosyn, ac ar ôl iddo gynnau tân yno, daeth perchennog y tir ato. "Beth wyt ti'n wneud ar fy nhir i?" gofynnodd Boia, y perchennog, iddo. "Dos oddi yma i rywle arall."

Ond roedd Boia a'i fyddin yn gwybod fod Dewi yn ddyn arbennig iawn. Pan gyrhaeddodd Boia a'i fyddin adref fe welson nhw fod yr holl anifeiliaid wedi marw. Aeth yn ôl i weld Dewi i ddweud wrtho beth oedd wedi digwydd.

"Dewi, mae fy anifeiliaid i gyd wedi marw. Mae'n ddrwg gen i fy mod wedi dod yma i ofyn i ti adael y tir. Wnei di faddau i mi?"

"Wrth gwrs y gwnaf," atebodd Dewi.

Pan aeth Boia adref yn ôl roedd yr anifeiliaid i gyd yn fyw ac

yn pori'n dawel yn y caeau. Rhoddodd Boia y tir i Dewi i godi mynachlog. Bywyd anodd iawn oedd bywyd yn y fynachlog. Byddai Dewi a'r mynaich eraill yn gweithio'n galed bob dydd. Roedden nhw hefyd yn gweddïo a darllen y Beibl. Roedd y bwyd yn syml iawn. Bara, dŵr, llysiau a physgod o'r môr – dyna i gyd. Roedd dillad y mynaich yn syml hefyd. Dillad o grwyn anifeiliaid, heb ddim am eu pennau na'u traed.

Gelwid Dewi yn Dewi Ddyfrwr. Efallai fod tri rheswm am hyn. Roedd wedi agor llawer iawn o ffynhonnau drwy'r wlad. Dim ond dŵr roedd yn ei yfed. A hefyd byddai'r mynaich yn arfer sefyll am gyfnodau hir mewn dŵr oer.

"Paid ag ofni, yr wyf fi gyda Thi."
Eseia 41:10

Diolch i Ti, O Dduw,
am bobl fel Dewi Sant.
Pobl oedden nhw yn mynd
o gwmpas y wlad i sôn amdanat Ti.
Yr adeg hynny doedd
hi ddim yn hawdd
i fynd o gwmpas y wlad.
Doedd yna ddim traffyrdd
na ffyrdd, na llwybrau hyd yn oed.
Diolch i Ti am yr hyn
wnaethon nhw yn eu cyfnod.
Amen.

Beth oedd yn arbennig am seintiau fel Dewi?

Dewi Sant – 6ed ganrif